OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 No. 343

# Rheoliadau Ychwanegion Bwyd, Cyflasynnau Bwyd, a Bwydydd Newydd (Awdurdodiadau) a Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023

## RHAN 2

### Awdurdodi Ychwanegion Bwyd

**Diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1333/2008**

**2.** Mae Rheoliad (EC) Rhif 1333/2008 Senedd Ewrop a'r Cygor ar ychwanegion bwyd(**1**) wedi ei ddiwygio yn unol ag Atodlen 1.

**Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 231/2012**

**3.** Mae Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 231/2012 sy'n gosod manylebau ar gyfer ychwanegion bwyd a restrir yn Atodiadau II a III i Reoliad (EC) Rhif 1333/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**2**) wedi ei ddiwygio yn unol ag Atodlen 2.

**Darpariaeth drosiannol**

**4.**—(1) Caniateir i unrhyw ychwanegyn bwyd neu fwyd a labelir cyn diwedd 14 Tachwedd 2024 fel E 960 glycosidau stefiol, neu fel eu bod yn cynnwys E 960 glycosidiau stefiol, sydd fel arall yn cydymffurfio â'r amodau defnyddio a'r fanyleb ar gyfer E 960a glycosidau stefiol o Stevia, barhau i gael eu rhoi ar y farchnad a'u defnyddio hyd nes y bydd y stociau wedi eu dihysbyddu.

(2) Mae i'r ymadroddion Cymraeg a ddefnyddir ym mharagraff (1) sy'n cyfateb i ymadroddion Saesneg a ddefnyddir yn Rheoliad (EC) Rhif 1333/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion bwyd yr un ystyr â'r ymadroddion hynny yn y Rheoliad hwnnw.

(**1**) EUR 2008/1333, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/860. Diwygiwyd O.S. 2019/860 gan O.S. 2020/1504.
(**2**) EUR 2012/231, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/860.